# Almaeneg







## Pam astudio Almaeneg?

Gall astudio Almaeneg agor drysau newydd a chynnig llawer o gyfleoedd i chi. Bydd dysgu'r iaith yn eich helpu i feithrin sgiliau cyfathrebu ehangach, yn ogystal ag ymwybyddiaeth ddiwylliannol ddyfnach a'r hyblygrwydd i deithio, astudio neu weithio mewn  gwlad Almaeneg ei hiaith. Mae'r gallu i siarad Almaeneg hefyd yn rhoi mantais i chi yn y farchnad waith. Bydd Lefel A mewn Almaeneg yn rhoi cyfle i chi ymestyn eich dealltwriaeth o iaith a llenyddiaeth y byd Almaeneg ei iaith a bydd yn eich cynorthwyo i gyfathrebu'n hyderus ynghylch materion cymdeithasol cyfoes, ffilmiau a llenyddiaeth.

## Gofynion y cwrs

Disgwylir i ddisgyblion fod â gradd C neu well yn yr haen uwch mewn TGAU Almaeneg er mwyn cael eu derbyn ar y cwrs hwn.

## Manylion y cwrs a'r dulliau asesu

### UG

**Thema 1:** Byw fel person ifanc mewn cymdeithas Almaeneg ei hiaith

**Thema 2:** Deall y byd Almaeneg ei iaith

**Asesiad - Arholiad**

**Uned 1: Siarad** - 12-15 munud (ynghyd ag amser paratoi ychwanegol o 15 munud)   12% o'r cymhwyster

**Uned 2: Gwrando, darllen, cyfieithu ac ysgrifennu** - 2 awr 30 munud
28% o'r cymhwyster Gwrando, Darllen, Cyfieithu o'r Almaeneg i'r Gymraeg/Saesneg ac Ymateb beirniadol ysgrifenedig i ffilm

### Uwch

**Thema 3:** Amrywiaeth a gwahaniaeth

**Thema 4:** Creu'r Almaen Fodern:  1989 ymlaen

**Asesiad - Arholiad**

**Uned 3: Siarad** - 11-12 munud  18% o'r cymhwyster
Project ymchwil annibynnol

**Uned 4: Gwrando, darllen a chyfieithu**
- 1 awr 45 munud  30% o'r cymhwyster
Gwrando, Darllen, Cyfieithu o'r Gymraeg/Saesneg i'r Almaeneg

**Uned 5: Ymateb beirniadol a dadansoddol ysgrifenedig**
- 1 awr 30 munud  12% o'r cymhwyster
Un cwestiwn traethawd – yn seiliedig ar astudio un gwaith llenyddol oddi ar y rhestr osod

## Sgiliau a ddatblygir a swyddi posibl

Bydd cymhwyster Lefel A mewn Almaeneg yn eich galluogi i ddatblygu sgiliau ieithyddol a sgiliau a strategaethau dysgu iaith. Byddwch yn dysgu sgiliau trosglwyddadwy megis creadigrwydd a meddwl yn feirniadol a fydd yn eich galluogi i astudio ymhellach neu i ganfod swydd. Bydd eich sgiliau darllen a gwrando'n cael eu hymestyn a byddwch yn dysgu sut i fynegi eich hun ar lefel fwy cymhleth. Mae iaith ychwanegol yn sgil werthfawr dros ben ar gyfer sawl gyrfa, cyflogwr neu brifysgol. Gallech ddilyn gyrfa ym myd peirianneg, y cyfryngau, lletygarwch ac arlwyo, TGCh, gweithgynhyrchu, gwasanaethau cyhoeddus, masnach, chwaraeon a hamdden, teithio a thwristiaeth, newyddiaduraeth, y gyfraith a busnes, yn ogystal â nifer o yrfaoedd eraill.